Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board



Wythnos Diogelu Genedlaethol **2024**

# ADRODDIAD CRYNO





#DiogeluCymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
**This document is available in English**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD



# WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL

## 11 - 15 TACHWEDD 2024

Mae Wythnos Diogelu yn ddigwyddiad blynyddol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC), gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r gymuned o negeseuon diogelu allweddol, trwy ddarparu ystod o ddigwyddiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb.

Eleni, dewisodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro 'Esgeulustod' fel ein thema leol a chynhaliodd a chydlynodd raglen o ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth llwyddiannus a gyflwynwyd ar draws y rhanbarth.

## 'Esgeulustod mewn Plant ac Oedolion'

Dewiswyd esgeulustod fel thema Wythnos Diogelu Genedlaethol eleni, gyda ffocws thematig allweddol ar allu a chydsyniad, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau bod esgeulustod yn cael ei nodi'n briodol. Hefyd, roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith sylweddol a wnaed ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â'r mater hwn a rhoi'r hyder a'r gefnogaeth i ymarferwyr wrth weithio gyda phlant, teuluoedd ac unigolion sy'n profi esgeulustod.

Roedd canfyddiadau dadansoddiad thematig a gynhaliwyd o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion ledled Cymru, yn nodi canfyddiadau arwyddocaol mewn perthynas ag 'esgeulustod' ac yn tynnu sylw at yr angen cynyddol hefyd i ystyried sut rydym yn ymateb i hunan-esgeulustod.

O ganlyniad i'r dysgu a nodwyd, datblygodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro Becynnau Cymorth Esgeulustod mewn Plant ac Oedolion (Pecyn Cymorth Esgeulustod mewn Plant BDCF; https://bdrhcaerdyddarfro.co.uk/wp-content/uploads/2024/11/CV-RSB-Child-Neglect-Toolkit-Final-2024-Cymraeg.pdf) a lansiwyd yn ffurfiol fel rhan o Wythnos Diogelu Genedlaethol 2024.

**Cynhaliwyd**
**12**
**o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos**

**Cynrychiolwyd dros**
**Over 40**
**o wahanol sefydliadau mewn digwyddiadau yn ystod yr wythnos**

**184**
**o bobl yn bresennol yng Nghynhadledd yr Wythnos Diogelu**

# RHAGLEN DDIGWYDDIADAU

Cafodd rhaglen gydgysylltiedig o ddigwyddiadau, yn darparu ystod o ddigwyddiadau hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth rhithwir ac wyneb yn wyneb, ei lledaenu'n eang ledled y rhanbarth gan gynnwys yr uchafbwyntiau canlynol:





- Gofal Cymdeithasol Cymru – 'Myfyrio ar dystiolaeth: Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal'
- NSPCC Cymru – Ymgyrch 'Bydd yn Glust, Bydd yn Llais'
- Tîm Galluedd Meddyliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Cynyddu Ymwybyddiaeth / Stondin Gwybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (DGM)
- NSPCC Cymru – Sesiwn Wybodaeth 'Siarad PANTS' – (gan gynnwys Fersiwn Gymraeg fel sesiwn untro a gynhelir ledled Cymru)
- CGGC a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig - 'Cydnabod ac Ymateb i Arwyddion o Esgeulustod' – Gweminar
- Gweminar: 'Lansio Asesiad E-Hunanasesiad Diogelu'
- Minus Violence - Gweithdai 'Vigilant' ar gyfer Bechgyn a Dynion
- Tîm Galluedd Meddyliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Galluedd Meddyliol a Hunan-esgeulustod' - Hyfforddiant Amlasiantaethol
- NSPCC Cymru - Sesiwn Wybodaeth 'Siarad PANTS'
- CGGC a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig – 'Sut i Ddiogelu Eich Gwirfoddolwyr' – Gweminar
- Cymdeithas y Plant – 'Diogelu Pobl Ifanc Trawsryweddol rhag Camfanteisio (Cymru)'
- Thema Cynhadledd Ddiogelu BDCF: Esgeulustod

Yn ogystal â'r digwyddiadau rhanbarthol uchod, cynhaliwyd Cynhadledd Diogelu Genedlaethol Cymru BDAC ar-lein ddydd Iau 21 Tachwedd, o'r enw ***'Diogelu Oedolion yng Nghymru a Lloegr - Adolygiadau Dysgu o Ymarfer'***. Archwiliodd y gynhadledd y dysgu gan Ddiogelu Oedolion gan gynnwys adolygiadau ac arolygiadau, i nodi'r materion allweddol, arfer da a heriau, gyda ffocws ar yr hyn sydd angen digwydd nesaf.

# CYNHADLEDD BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A’R FRO 2024

Fel diweddglo addas i’r wythnos, cynhaliwyd Cynhadledd BDCF yng Ngwesty’r Village, Caerdydd gyda ffocws allweddol ar esgeulustod mewn plant ac oedolion, gan gynnwys themâu ynghylch gallu a chydsyniad, a oedd yn adlewyrchu cynllun blynyddol y Bwrdd.

Agorwyd y gynhadledd gan Sarah McGill, cyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Caerdydd a’r Fro. Siaradodd prif siaradwyr am esgeulustod mewn plant ac oedolion. Cynhaliwyd gweithdai rhyngweithiol fel rhan o sesiwn y prynhawn a chofrestrodd 160 o bobl i fod yn bresennol.

Roedd y gweithdai yn cynnwys:

- **Adolygiadau Ymarfer Oedolion BDCF – Dysgu am Esgeulustod / Hunan-Esgeulustod**
- **Cydsyniad, Galluedd a Hawliau Unigol**
- **Adolygiadau Ymarfer Plant BDCF – Ymwreiddio Dysgu mewn Ymarfer**
- **Gweithdy Pecyn Cymorth Esgeulustod mewn Oedolion**





Agor y gynhadledd gan gyd-gadeirydd BDCF, Sarah McGill



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru



Vicky Sharley



David Orr



# CYNHADLEDD BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO 2024

Daeth y gynhadledd i ben gyda lansiad swyddogol Pecynnau Cymorth Esgeulustod mewn Plant ac Oedolion, Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Datblygwyd y pecynnau cymorth amlasiantaethol mewn ymateb i adborth gan ymarferwyr a dysgu o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion. Cafodd y pecynnau cymorth eu treialu yn gynharach yn y flwyddyn yn y cyfnod cyn eu lansiad swyddogol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai 'cinio a dysgu' rhithwir ar draws y rhanbarth, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac i gefnogi ymarferwyr wrth ddefnyddio'r ddau becyn cymorth.

Bydd y pecynnau cymorth yn rhoi'r hyder a'r gefnogaeth i ymarferwyr wrth weithio gyda phlant, teuluoedd ac unigolion sydd mewn perygl o esgeulustod a gwella ymateb cyfunol asiantaethau partner i esgeulustod.

Stondinau gwybodaeth








# ADBORTH A SYLWADAU A DDERBYNIWYD GAN GYFRANOGWYR A SIARADWYR

"Roedd yn ddiddorol iawn clywed am hunan-esgeulustod mewn oedolion"

(cyfranogwr y gynhadledd)

"Roedd yn ddefnyddiol iawn tynnu sylw at y ffaith bod angen i bob asiantaeth sy'n ymwneud â rhywun lle mae pryder am esgeulustod gyfathrebu "

(cyfranogwr y gynhadledd)

"Wedi mwynhau'r hanesion angerddol/personol gan David Orr, Uwch Ddarlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol - roedd yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig, ac mor glir".

(cyfranogwr y gynhadledd)

"Diolch yn fawr iawn am fy ngwahodd i gyfrannu heddiw - gwnes i lawer o gysylltiadau a chefais sgyrsiau hyfryd â phobl wedi hynny"

(Dr Vicky Sharley, Prifysgol Bryste)

"Diolch yn ddiffuant am y cyfle i siarad â'r ymarferwyr ysbrydoledig ac ymroddedig yn eich ardal".

(Dr David Orr, Prifysgol Sussex)

"Dysgu am gydweithredu, gwaith amlasiantaethol, adolygiadau achos a phawb sy'n gweithio tuag at un nod. Hefyd arwyddion o esgeulustod".

(Barnardo's, cyfranogwr y gynhadledd)

"Roedd hi'n dda gallu rhwydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill"

(cyfranogwr y gynhadledd)

# CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Dosbarthwyd nifer o gyfathrebiadau wedi'u targedu a briffiau staff i asiantaethau partner a thrydydd sector yn y cyfnod cyn yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, er mwyn hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen ddigwyddiadau. Cafodd sawl pecyn cyfathrebu ei ddatblygu a'i rannu hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgyrchoedd cenedlaethol a gafodd eu lansio fel rhan o weithgareddau'r wythnos.

## Siarad PANTS a Bydd yn Glust, Bydd yn Llais







Cafodd dwy ymgyrch ddwyieithog allweddol, **'Siarad PANTS'** a **'Bydd yn Glust, Bydd yn Llais'**, eu cyflwyno gan NSPCC Cymru fel rhan o ddigwyddiadau'r wythnos, gyda gwybodaeth a negeseuon wedi'u targedu yn cael eu lledaenu ar draws ysgolion cynradd ac ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rhannwyd adnoddau hefyd, a oedd yn cynnwys poster dwyieithog, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynwyd y sesiwn wybodaeth 'Siarad PANTS' hefyd fel fersiwn Gymraeg ychwanegol a gynigiwyd ar draws Cymru gyfan.

## Bydd yn Glust, Bydd yn Llais

Oherwydd cefnogaeth y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ledled Cymru, adroddwyd bod yr NSPCC wedi llwyddo i gyrraedd dros 600 o weithwyr proffesiynol ledled Cymru i rannu negeseuon pwysig a fydd yn helpu i gadw plant yn ddiogel.



Bydd NSPCC Cymru hefyd yn lansio ail wythnos Ymgyrch Siarad PANTS ym mis Ionawr (27-31 Ionawr 2025) ac wedi dosbarthu 'Cadwch y Dyddiad'. Mae hyn wedi'i ledaenu i ysgolion/blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn addysgu gweithwyr proffesiynol ar sut i gyfathrebu'r negeseuon pwysig hyn yn effeithiol i blant, a thrwy hynny atal camdriniaeth.




## Ymgyrch Deddf Galluedd Meddyliol

Defnyddiodd Tîm DGM Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Wythnos Diogelu Genedlaethol fel cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd am eu hawliau dan y DGM, drwy ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiad wyneb yn wyneb a gynhaliwyd yn y cyntedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, i rannu adnoddau ac ateb cwestiynau.

**Cafwyd 23 o ryngweithiadau drwy gydol y cyfnod o 4 awr, a oedd yn hynod gadarnhaol:**

| **CYHOEDDUS:** | **STAFF:** (mewn cymhwyster personol) |
|---|---|
| Stopiodd 9 i ofyn ymholiad yn ymwneud â LPA | Cymerwyd 8 o daflenni |
| Cymerodd 5 daflenni. | Cafwyd 1 ymholiad |
| Cyfanswm o 14 | Cyfanswm o 9 |

Rhannwyd dolenni i nifer o wefannau ac adnoddau digidol hefyd gan ddarparu cymorth ac arweiniad ynghylch proses ac ymarfer y DGM. Bydd y rhain ar gael i'w cyrchu o wefan **www.bdrhcaerdyddarfro.co.uk**

Estynnodd Tîm Galluedd Meddyliol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wahoddiad rhanbarthol hefyd i asiantaethau partner fynychu sesiynau Cinio a Dysgu 'Hunan-esgeulustod a Deddf Galluedd Meddyliol' a gynhaliwyd dros nifer o wythnosau yn dilyn yr Wythnos Diogelu Genedlaethol.

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

**Hoffai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ddiolch i bawb a helpodd i wneud digwyddiadau'r wythnos mor llwyddiannus.**